



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 02.10.2015

Taith Blwyddyn 7 i Langrannog 2015

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol cafodd blwyddyn 7, yr athrawon a rhai o ddisgyblion y chweched dosbarth gyfle i fynd a chael profiad anhygoel yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Fe ddaeth amrywiaeth o liwiau bagiau, dillad a sachau cysgu i Fro Myrddin y bore hwnnw a phawb yn eiddgar i fynd. Ar ôl cofrestru aeth pawb ar y bysiau yn barod i gychwyn ei antur yn Llangrannog.

Cyn pen dim cyrhaeddod ni'r gwerysll a gweld logo mawr Mr Urdd tu fas i'r bws. Wedi cyfarfod yn y neuadd a chael ein stafelloedd aethom i chwilio am ein bagiau. Na beth oedd amser caled i'r chweched dosbarth i chwilio am bob sach cysgu ac am bob cês ond fe gafodd pawb eu eitemau a gwneud eu ffordd tuag at eu ystafelloedd. Ar ben hynny cawsom ni ginio blasus dros ben ac aethom ymlaen i wneud ein gweithgaredd gyntaf.

Roedd y gweithgareddau i gyd yn hwyl ac roedd rhywbeth at ddant pawb. Rhai o'r gweithgareddau oedd merlota, gwib gartio, rhaffau isel, rhaffau uchel, sgïo, saethyddiaeth ac wrth gwrs y cwrs antur mwdlyd a oedd yn ffefryn i'r rhan fwyaf!

Roedd y nosweithiau hefyd yn llawn hwyl, o'r chwaraeon i'r disco ac wrth gwrs y gystadleuaeth rhwng y dosbarthiadau gyda: 7-1 yn arddangos eu talentau gwahanol ac yn canu c â n; 7-2 yn gwneud dawns Mr Urdd efo Elen a Mia yn rapsgaliwn; 7-3 yn dawnsio ac yn gwneud gymnasteg; 7-4 yn actio ac yn canu a 7-5 yn dawnsio.

Mrs Hammond, pennaeth blwyddyn 7 oedd y beirniad a 7-5 oedd y dosbarth buddugol. Cawsom amser bendigedig yn Llangrannog ac fe hoffwn ddiolch i'r athrawon a'r SWOGS o'r chweched ddosbarth am roi eu amser i ni gael mynd ar y trip hwn i Langrannog. Diolch!

Adroddiad gan Lucy Davies Blwyddyn 7

Cystadleuaeth Gymdeithas Fiolegol Brenhinol

Cyn yr haf cynhaliwyd cystadleuaeth y Gymdeithas Fiolegol Frenhinol a llwyddodd wyth o'r blwyddyn 11 presennol i ennill tystysgrif clod. Llongyfarchiadau i Garmon Dyfri, Rhys Evans, Lowri Mathias, Libby Jones, Nia Williams, Lowri Davies, Chloe Williams, Bethan Thomas a Gemma Davies. Enillwyd tystysgrif Efydd hefyd gan Lowri Davies.

Canlyniadau Rygbi

Bro Myrddin BL 9 yn ennill 47 -22 yn erbyn Y Strade
Bro Myrddin BL 7A yn ennill 7 - 5 yn erbyn Y Strade
Bro Myrddin BL 7B yn ennill 45 - 14 yn erbyn Y Strade
Bro Myrddin BL 8 yn ennill 45 - 0 yn erbyn Y Strade

Da iawn i fois Bro Myrddin am ennill pob gêm. Daliwch ati!

Canlyniadau Hoci

Dyffryn Aman

Bl.10 Colli 2-0
Tim 1af Colli 2-0

Llanymddyfri

Bl.10 Ennill 7-0
Tim 1af Colli 5-0

Canlyniadau gêmau pêl-droed Dydd Iau 1af o Hydref

Blwyddyn 9 Bro Myrddin yn colli 3-4 yn erbyn QEH!Colli yn y munud diwethaf.

Blwyddyn 8 Bro Myrddin yn ennill 7 - 4 yn erbyn Dyffryn Aman.

Da iawn bois.